**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**19 MEHEFIN 2018**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ar ddydd Mawrth, 19 Mehefin 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, David Evans, Veronica Gay, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Dave Mackie, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Carol Ellis, George Hardcastle, Andrew Holgate, Hilary McGuill, Mike Lowe a Martin White

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Strydlun a Chludiant); Prif Swyddog (Y Gwasanaethau Cymdeithasol); Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid); Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol; Rheolwr Refeniw; Rheolwr Gwasanaethau Democratig; Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democratig; Swyddog Gwasanaethau Democratig; a'r Parchedig David Poulton ar gyfer gweddïau.

## 13. CYFLWYNIADAU

(i) Carfan Pêl-droed Ysgolion Cynradd Sir y Fflint

Estynnodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr groeso i Andrew Jones (Rheolwr a Phennaeth Ysgol Derwenfa yng Nghoed-llai) ac Ian Price, Jamie Davies a Reagen Nicholas (Hyfforddwr/Athro a dau gapten tîm) o Ysgol Gynradd Ewloe Green. Cawsant eu llongyfarch ar eu cyflawniad ffantastig yn ennill tair cystadleuaeth mewn blwyddyn: Adain y Gogledd Tom Yeoman (pencampwyr Gogledd Cymru), Rownd Derfynol Genedlaethol Tarian Tom Yeoman (Pencampwyr Cymru) a Tharian Phil Staley. Nodwyd mai Ysgolion Glannau Dyfrdwy/Sir y Fflint oedd yn dal y record am y nifer fwyaf o fuddugoliaethau yn rowndiau terfynol cenedlaethol Tarian Tom Yeoman, ar ôl ennill 16 gwaith ers cystadlu yn y gystadleuaeth.

Fel yr Aelod Cabinet Addysg, talodd y Cynghorydd Roberts deyrnged i Ysgolion Cynradd Sir y Fflint a chyfraniadau athrawon a rhieni o ran helpu'r bobl ifanc i gyflawni eu llwyddiant.

Ar ran pawb yn y Gymdeithas Bêl-droed, dywedodd Mr Jones ei bod yn anrhydedd gofyn iddo fynychu mewn cydnabyddiaeth o waith caled pawb oedd yn gysylltiedig.

(ii) Gareth Thomas, Rheolwr Clwb Pêl-droed Bwrdeistref Conwy

Croesawyd swyddogion Cyngor Sir y Fflint, Gareth Thomas (Rheolwr Logisteg, Strydlun) ac Alun Winstanley (Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid) - Rheolwr a Rheolwr Cynorthwyol Clwb Pêl-droed Bwrdeistref Conwy – er mwyn cydnabod llwyddiant y clwb fel enillwyr Pencampwriaeth Cynghrair Cymru (ennill dyrchafiad i Gynghrair Cymru), Tlws Cymdeithas Pêl-droed Cymru a Chwpan Cookson. Enillodd Gareth hefyd dair gwobr 'Rheolwr y Mis' yn ogystal â chael ei wobrwyo'n 'Reolwr y Tymor' gan gylchgrawn Y Clwb Pêl Droed a'r Gynghrair.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Roberts gyflawniadau'r clwb yn ystod y tymor.

Wrth ddymuno'n dda i'r clwb yn y tymor newydd, dywedodd y Cynghorydd Attridge ei fod yn bleser mawr ganddo enwebu Gareth ac Alun oherwydd eu hymroddiad a'u hymrwymiad i'r clwb. Talwyd teyrnged yn yr un modd gan y Cynghorydd Owen Thomas a'r Cynghorydd Hutchinson.

Mewn ymateb, mynegodd Gareth ei ddiolch am y gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod.

## 14. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Ebrill a 1 Mai 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion gan y Cadeirydd fel cofnodion cywir.

## 15. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar gyngor y Prif Swyddog (Llywodraethu), datganodd y canlynol gysylltiad personol mewn perthynas â Chymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Clwyd (Eitem Agenda 14) fel aelodau o Gronfa Bensiwn Clwyd:

Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Marion Bateman, Sian Braun, Helen Brown, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Mared Eastwood, Gladys Healey, Dave Hughes, Joe Johnson, Paul Johnson, Dave Mackie, Ian Roberts ac Ian Smith.

Dywedodd y Prif Swyddog y byddai cysylltiad personol yn cael ei gofnodi ar ran yr holl Aelodau sy'n bresennol ar gyfer Eitem Agenda 15 'Rhestr o Gydnabyddiaethau Ariannol ar gyfer 2018/19'.

## 16. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi'i gylchredeg cyn y cyfarfod. Soniodd y Cadeirydd yn arbennig am achlysur codi Lluman yr Awyrlu Brenhinol yn Neuadd y Sir i ddathlu ei ganmlwyddiant, a fynychwyd gan nifer fawr o bobl.

## 17. DEISEBAU

Ni dderbyniwyd rhai.

## 18. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd rhai.

## 19. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd rhai.

## 20. CWESTIYNAU GAN AELODAU AM GOFNODION PWYLLGORAU

Ni dderbyniwyd rhai.

## 21. RHYBUDD O GYNNIG

Derbyniwyd dau Rybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Hinds:

(i) Cilfachau Parcio y tu allan i Fyngalos Pensiynwyr

'Dylai'r holl gilfachau parcio y tu allan i fyngalos pensiynwyr ar draws Sir y Fflint fod ar eu cyfer nhw a cherbydau argyfwng yn unig. Dylid bod modd gorfodi hyn.'

I gefnogi ei Chynnig, siaradodd y Cynghorydd Hinds am ba mor bwysig ydyw i gilfachau parcio o'r fath fod ar gael i breswylwyr, eu gofalwyr ac yn bwysicaf oll, y gwasanaethau argyfwng a all fod angen mynediad brys. Yr oedd wedi derbyn sawl gwrthwynebiad i bobl eraill sy'n defnyddio'r cilfachau parcio, ynghyd â rhieni'n rhwystro mynediad yn ystod adegau ysgol.

Fel y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet Tai, roedd y Cynghorydd Attridge yn deall yr angen am ryw fodd o reoli hyn ond siaradodd am y materion ehangach nad ydynt ond yn ymwneud â byngalos pensiynwyr. Cyfeiriodd at y rhaglen o waith amgylcheddol ar draws y Sir a oedd yn cynnwys creu darpariaeth barcio newydd, ac awgrymodd y gallai hyn ymgorfffori adolygiad o gyfyngiadau parcio presennol yn yr ardaloedd dan sylw ynghyd â chanfod yn lle y gellid cyflwyno cardiau parcio ar gyfer preswylwyr, pe bai hynny'n cael ei gefnogi. Roedd yn cydnabod efallai na fyddai hyn yn mynd i'r afael â phryderon cyfredol y Cynghorydd Hinds, ond awgrymodd y gallai swyddogion ganfod y lleoliadau sy'n flaenoriaeth o ran bod mannau parcio'n cael eu camddefnyddio, a mynd ati i ddatblygu polisi cardiau parcio ar gyfer preswylwyr, fyddai'n cynnwys ymgynghori effeithiol â defnyddwyr a effeithir.

Dywedodd y Cynghorydd Hinds ei bod yn fodlon gyda'r diwygiad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Heesom.

Eglurodd y Prif Weithredwr, pe cefnogir hyn, y byddai swyddogion yn ymdrechu i flaenoriaethu'r mathau o lety a amlygwyd gan y Cynghorydd Hinds o fewn yr adolygiad.

Siaradodd y Cynghorydd Carolyn Thomas o blaid y diwygiad, gan gynnwys yr ardaloedd fyddai'n cael eu blaenoriaethu, yn amodol ar yr adnoddau a'r cyllid sydd ar gael.

Roedd y Cynghorydd Heesom, David Williams ac Owen Thomas yn siarad o blaid y diwygiad hefyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Carver p'un a fyddai'r adolygiad yn berthnasol i fyngalos sy'n eiddo i'r Cyngor yn unig, a nododd bod llety weithiau'n cael ei ddyrannu i breswylwyr sydd o dan oedran pensiwn.

Gofynnodd y Cynghorydd Peers am sicrwydd y byddai'r adolygiad yn cynnwys cynlluniau a oedd wedi'u nodi'n flaenorol ar draws Sir.

Dywedodd y Cynghorydd Gladys Healey y dylai'r adolygiad ystyried gwahanol anghenion preswylwyr sy'n defnyddio'r math hwn o lety, ynghyd â nifer cerbydau bob aelwyd.

Eglurodd y Cynghorydd Attridge y byddai'r adolygiad yn berthnasol i lety gwarchod ac y byddai'n cael ei gynnal ar wahân i'r adolygiad Strydlun. Nododd y Cynghorydd Hinds ei bod yn cytuno.

Mewn ymateb i'r sylwadau a godwyd, eglurodd y Prif Swyddog (Strydlun a Chludiant) bod polisi ar gyfer cynlluniau parcio i breswylwyr wedi'i gyflwyno, oedd yn cynnwys proses fanwl ac ymgynghori helaeth. Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Chris Dolphin, dywedodd, tra bod rhestr o ardaloedd wedi'u blaenoriaethu, nid oedd cynllun wedi'i weithredu eto gan fod angen cefnogaeth nifer angenrheidiol o breswylwyr ar gyfer hyn.

Cafodd y diwygiad hwn ei gario o'i roi i bleidlais.

(ii) <u>Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru (TAN) 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (2015)</u>

'TAN1 yw'r broses gynllunio fwyaf annheg a gall gosbi rhai cymunedau'n fwy nag eraill gan olygu y bydd y cymunedau hynny'n cael eu gorddatblygu ac nad ydynt yn gallu ymdopi â'r isadeiledd sydd yno eisoes. Diffyg ystyriaeth hefyd o lesiant a chydlyniant cymdeithasol cymunedau e.e. llawer mwy o dai pedair ystafell wely sy'n gadael y rheiny sy'n wael, yn anabl, yn ifanc, heb geir, ynghyd â theuluoedd ar incwm is, heb gludiant cyhoeddus ac ati, gan y bydd gan y preswylwyr hyn i gyd gerbydau preifat. Dim lle mewn ysgolion, draenio annigonol, ysbytai a meddygon yn methu ag ymdopi, materion priffyrdd ac ati. Rydym yn gwahanu cymunedau yn hytrach na'u cadw gyda'i gilydd.

Mae'n chwalu cymuned oherwydd y sefyllfa erbyn hyn yw mai prin y gwelwn breswylwyr o un o'r ystadau newydd lle mae'r mwyafrif o'r tai yn rhai 4 ystafell wely. Mae'r ystad arall yn cynnwys cyfuniad gwell o dai, ac mae preswylwyr yn gwneud cyfraniad i'r gymuned.

Mae angen anfon hwn at Lywodraeth Cymru (LlC), fel mai tegwch, cydlyniant cymdeithasol, llesiant a synnwyr cyffredin sy'n cael blaenoriaeth ac nid cyfoeth datblygwyr, ynghyd ag ystadau sydd â'r math iawn o dai nad ydynt wedi'u cynllunio fel bocsys bach, heb ddigon o le rhyngddynt a bod ganddynt rodfa dda ar gyfer o leiaf ddau gar. Onid ydym yn dysgu?

Y rhan bwysicaf o gynllunio yw beth mae ar y gymuned ei eisiau, ac os yw'r gymuned wedi gweithio'n galed i lunio Cynllun Lle, yna dylid rhoi ystyriaeth i hwn a dylai ddod o dan unrhyw fath o bolisi gynllunio, p'un a yw'n CDLl ac ati.'

Eglurodd y Cynghorydd Hinds ei bod wedi cyflwyno'r Rhybudd o Gynnig cyn ymgynghoriad LlC ar gynigion i ddatgymhwyso dros dro baragraff 6.2 o TAN1, a cheisiodd gefnogaeth yr Aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad. Wrth amlygu goblygiadau'r polisi i gymunedau, cyfeiriodd at benderfyniad yr apêl cynllunio yn ei ward a oedd wedi ei basio o dan apêl.

Fel Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, apeliodd y Cynghorydd Bithell at Aelodau i gymeradwyo'r argymhellion a gytunwyd gan y Cabinet yn gynharach yn y dydd ac i ysgrifennu'n unigol at LlC i ddiddymu'r polisi.

Darllenodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) ddarn allweddol o'r ymateb a grynhowyd gan y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) ac a gytunwyd gan y Cabinet yn y cyfarfod yn gynharach yn y dydd:

1. Mae'r Cyngor yn cytuno ac yn cefnogi'n llawn datgymhwyso arfaethedig y paragraff perthnasol o fewn TAN1 nid yn unig ar gyfer cyfnod yr alwad am dystiolaeth ond hyd yr adeg y bydd canlyniad yr adolygiad yn hysbys ac y bydd y camau mewn perthynas â diwygio TAN1 wedi'u deall.
2. Mae tystiolaeth glir yn awgrymu bod cwantwm sylweddol a chynyddol o ganiatadau cynllunio sydd heb eu datblygu yn bodoli yng Nghymru. Pan fo cyflenwad cyfredol, sy'n dod i'r amlwg ac sydd wedi'i fabwysiadu o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cael ei fesur yn erbyn y graddau y mae datblygwyr tai'n adeiladu tai ar hyn o bryd, gallai bob un ac eithrio un Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) ddangos cyflenwad pum mlynedd ar y sail hon.
3. Mae'r cyngor yn cadarnhau y bydd datgymhwyso'r paragraff perthnasol yn lleihau'r pwysau y mae'n ei brofi'n sylweddol, o ran derbyn datblygiadau tybiannol.
4. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cyngor gynnal ei sylw ar yrru'r CDLl yn ei flaen, sydd mewn cyfnod pwysig yn nhermau paratoi ei gynllun adnau, a lle mae rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu safleoedd digonol a chynaliadwy i gyflawni gofynion y Cynllun.
5. Rhaid i gwmpas yr adolygiad fod yn eang ac yn heriol ac nid yn unig i ACLlau. Rhaid i'r diwydiant adeiladu fod wedi ymgysylltu'n

llwyr â'r adolygiad mewn modd nad ydynt yn wrthwynebol, a rhaid iddynt fod yn barod i gael eu herio a bod yn agored wrth ddarparu tystiolaeth o'u gwir allu i adeiladu cartrefi yng Nghymru. Mae hyn o safbwynt unedau sydd wedi'u caniatau ond nad ydynt wedi'u datblygu hyd yma, yn ogystal â dod â safleoedd sydd yn y Cynlluniau Datblygu Lleol yn eu blaenau. Mae'n rhaid i hyn hefyd fynd ati'n drwyadl i brofi'r canfyddiad sy'n bodoli o ran bancio tir, yn ogystal â'r ymagwedd tuag at gyflenwi tai yng Nghymru.

6. O ran canlyniad a chamau gweithredu'r adolygiad, dylid eu hasesu'n llawn a'u rhannu â'r holl bartïon sydd â diddordeb i osgoi brys gormodol y modd y cafodd TAN1 ei adolygu a'i ddiwygio'n flaenorol, ynghyd â'r materion sy'n cael eu profi erbyn hyn o ganlyniad i'r adolygiad brysiog hwnnw.

Dywedodd y Cynghorydd Hinds fod yr uchod yn cwmpasu ei phryderon. Eiliwyd y diwygiad hwn gan y Cynghorydd Attridge.

Eglurwyd gan y Prif Weithredwr bod gofyn i'r Cyngor gefnogi penderfyniad y Cabinet.

Siaradodd y Cynghorydd Peers o blaid y Rhybudd o Gynnig ac ymateb y Cabinet i geisio diwedd i TAN1 a oedd yn tanseilio'r CDLl. Rhoddodd sicrwydd bod y Grŵp Strategaeth Cynllunio wedi ystyried y mater yn fanwl, a gofynnodd pa gamau y gellid eu cymryd yn y cyfnod interim i leihau'r pwysau ar gymunedau.

Gan siarad o blaid, dywedodd y Cynghorydd David Healey y dylid cyflwyno sylwadau i LlC i ehangu cwmpas yr adolygiad i ailystyried y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r cyflenwad o dir ar gyfer tai.

Cododd y Cynghorydd David Williams bwyntiau ynghylch ceisio mwy o amddiffyniad i gymunedau gwledig.

Dywedodd y Cynghorydd Heesom efallai ei fod yn amhriodol mynd ar drywydd adolygiad barnwrol o'r penderfyniad ar gais Penyffordd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad.

Eglurodd y Cynghorydd Butler bod y Grŵp Strategaeth Cynllunio wedi bod yn gweithio ar y mater am beth amser. Dywedodd bod angen cefnogaeth gan y Cyngor ar y cyd, yn ogystal â cheisio atal TAN1 hyd nes yr oedd canlyniad yr adolygiad yn hysbys. Rhannwyd y farn hon gan y Cynghorydd Owen Thomas.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Peers, gofynnodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) i Aelodau fynd ati ar y cyd i roi cefnogaeth i'r Rhybudd o Gynnig diwygiedig a hefyd i ymateb i ymgynghoriad LlC yn unigol. Rhoddodd sicrwydd i'r Cynghorydd Healey, fel rhan o'r alwad am dystiolaeth, y byddai'r Cyngor yn amlygu'r diffyg yn y cyfrifiad i ddangos cyflenwad tir am bum mlynedd, fel yr amlygir gan y gymhareb isel o ACLlau a allai wneud hynny. Aeth ymlaen i bwysleisio'r angen am benderfyniad brys gan LlC i ddatgymhwyso'r paragraff perthnasol.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo penderfyniad y Cabinet, gan gynnwys sylwadau ar y fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r cyflenwad o dir ar gyfer tai.

O'i roi i bleidlais, cafodd y Rhybudd – fel y'i diwygiwyd – ei gefnogi'n unfrydol.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Hinds yn cael ei gefnogi fel a ganlyn: 'Bod y Cyngor yn adolygu mannau parcio ar gyfer preswylwyr yn gyffredinol ar draws y Sir, i dargedu a blaenoriaethu cynllunio parcio y tu hwnt i fyngalos gwarchod y Cyngor a chyflwyno pwerau parcio ar y stryd lle y bo'n bosibl. Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, canfod tir a chilfachau parcio sy'n eiddo i'r Cyngor, fel y cyfeirir yn y Rhybudd o Gynnig, er mwyn canfod lle y gellir cyflwyno pwerau parcio.'

(b) Cefnogi Rhybudd o Gynnig y Cynghorydd Hinds fel a ganlyn: 'Bod Aelodau'n cefnogi penderfyniad y Cabinet ar 19 Mehefin 2018 ar gyfer ymateb i Lywodraeth Cymru fel y nodir yn adroddiad y Cabinet ac yn arbennig ym mharagraff 1.07, gan gynnwys gwneud sylwadau ar ail-gyfrifo'r cyflenwad o dir ar gyfer tai fel rhan o'r alwad am dystiolaeth.

## 22. <u>CYNLLUN Y CYNGOR 2018-19</u>

Cynigiodd y Cynghorydd Mullin yr argymhellion yn yr adroddiad ar yr adolygiad blynyddol o Gynllun y Cyngor 2017-23 yr oedd ei strwythur a'i gynnwys wedi'i adnewyddu ar gyfer 2018-19. Diolchodd i'r Aelodau am eu mewnbwn yn y gweithdy diweddar ac yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Attridge.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, eglurodd y Prif Weithredwr y dylid cyhoeddi'r Cynllun yn flynyddol ac roedd y cynnwys yn destun adolygiad treigl. Tynnodd sylw at yr atodiadau gan gynnwys yr ymatebion i ymgynghoriad yr Aelodau a chadarnhaodd bod y Cabinet wedi argymell cymeradwyo'r Cynllun.

Gwnaeth y Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu gyflwyniad oedd yn cwmpasu'r canlynol:

- Sut mae'r Cynllun yn cael ei ddwyn ynghyd
- Dewis y blaenoriaethau o fewn y flwyddyn
- Cynnwys newydd: materion cenedlaethol
- Ymgynghori ag aelodau
- Manteision cynllunio
- Cynllun y Cyngor 2018/19 ar gyfer eleni
- Defnyddio'r Cynllun
- Y camau nesaf

Yn ystod y cyflwyniad, atgoffwyd pawb am rôl Trosolwg a Chraffu mewn monitro cynnydd, ynghyd â'r Pwyllgor Archwilio mewn monitro risgiau strategol. Byddai'r nifer isel o faterion arwyddocaol parhaus o ran tanberfformiad yn 2017/18 yn destun monitro pellach drwy gynlluniau gweithredu a gytunwyd.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones, er gwaethaf ceisiadau blaenorol, nid oedd y diwygiadau wedi'u hamlygu yn Rhan 2 o'r Cynllun a rhoddodd enghreifftiau o newidiadau i fesuriadau a thargedau lle dylid fod wedi rhoi eglurhad, yr oedd yn cytuno i'w rhannu'n llawn ar ôl y cyfarfod. I alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd statudol o ran cyhoeddi'r Cynllun, awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid newid yr argymhelliad i fabwysiadu Cynllun y Cyngor fel yr oedd, yn amodol ar adolygiad parhaus o dargedau ar gyfer gwella.

Roedd y Cynghorydd Jones hefyd yn awgrymu newidiadau i eiriad dau o'r effeithiau o dan y flaenoriaeth 'Twf ac Adfywio'r Sector Busnes' y dywedodd na ellid ei gynnwys ar yr adeg hon. O ran cyflawni ymrwymiadau drwy'r Fargen Twf Economaidd Ranbarthol (Eitem 2), cytunodd y Prif Weithredwr y dylid dileu'r ail frawddeg. O ran datblygu'r strategaeth gludiant ranbarthol a lleol (Eitem 7), cytunwyd y dylid diwygio'r pwynt bwled cyntaf i ddarllen 'Cynnig y dylid cynnwys isadeiledd cludiant yng nghynnig y Fargen Twf Economaidd Ranbarthol' i adlewyrchu'r nod hwn o fewn y flwyddyn.

Dywedodd y Cynghorydd Peers y dylai'r newidiadau sydd wedi'u tracio yn Rhan 1 o'r Cynllun adlewyrchu eglurhad o ran pam y cafodd nodau eu dileu. Mewn ymateb i ymholiadau, darparodd y Prif Weithredwr eglurhad o'r derminoleg yn y ddogfen. O ran y flaenoriaeth 'Cartrefi Modern, Effeithlon ac sydd wedi'u Haddasu', tra bo'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yn cydnabod y cais i adfer y nod o ddarparu cymaint â phosib o gartrefi fforddiadwy drwy'r broses gynllunio, amlygodd mai ychydig iawn o reolaeth oedd gan y Cyngor a ran dylanwadu ar berfformiad. Fel y cyfryw, awgrymodd y dylid cynnwys yr amcan fel trydydd pwynt bwled o dan 'bydd cyflawniad yn cael ei fesur drwy', ond heb darged gosodedig. Cytunodd y Prif Weithredwr a'r Cynghorydd Bithell y dylid mesur y cynlluniau'n unigol gan nad oedd gosod targed cyffredinol yn hyfyw.

O dan y thema 'Cyngor Uchelgeisiol', nododd y Cynghorydd Heesom ei amheuon ynghylch y manteision ar gyfer y sir gyfan yn sgil y Fargen Twf Economaidd Ranbarthol.

Dywedodd y Swyddog Gweithredol y byddai adroddiad manylach i egluro'r holl newidiadau'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Eglurodd y Prif Weithredwr y newidiadau arfaethedig a siaradodd am y posibilrwydd o gynnal ymgynghoriad ar y Cynllun ar gyfer 2019-20 yn gynharach y flwyddyn nesaf.

Wrth grynhoi, dywedodd y Cynghorydd Mullin bod y broses yn dangos effeithiolrwydd Trosolwg a Chraffu a diolchodd i'r Prif Weithredwr a'i thîm am eu gwaith caled.

O'i roi i'r bleidlais, cafodd yr argymhelliad gan y Cabinet a'r newidiadau arfaethedig eu cario.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Cynllun y Cyngor 2018-19 yn cael ei fabwysiadu yn ôl argymhelliad y Cabinet, yn amodol ar:

- y newidiadau a gytunwyd i'r geiriad o ran y Fargen Twf Economaidd Ranbarthol a datblygu'r Strategaeth Gludiant Ranbarthol a Lleol o dan y flaenoriaeth 'Twf ac Adfywio'r Sector Busnes';
- cynnwys yr amcan i ddarparu cymaint â phosib o dai fforddiadwy, gydag ymagwedd ehangach tuag at berfformiad i'w cynnwys o dan y flaenoriaeth 'Cartrefi Modern, Effeithlon ac sydd wedi'u Haddasu'; ynghyd ag
- ymagwedd agored tuag at adfywio targedau ar gyfer gwella ar unrhyw adeg.

## 23. GWELEDIGAETH A STRATEGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: CYTUNDEB LLYWODRAETHU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad ar ddatblygu Cais Bargen Twf Gogledd Cymru i geisio cymeradwyaeth ar gyfer y trefniadau anweithredol o fewn Cytundeb Llywodraethu (GA1) yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet o'r trefniadau gweithredol yn gynharach yn y dydd.

Rhoddwyd eglurhad o'r ddau faes penderfynu yr oedd eu hangen i gymeradwyo cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethu fel y gellid diweddaru'r Cyfansoddiad yn gyfatebol. Nod Cais y Bargen Twf oedd bod o fudd i economi'r rhanbarth a byddai'r Strategaeth Twf yn galluogi ymagwedd unedig i gael mynediad i geisiadau am gyllid, fel y Gronfa Ffyniant. Fel y gofynnwyd yn y gweithdy diweddar i Aelodau, rhannwyd gwybodaeth ar fodel Llywodraethu diwygiedig y cydbwyllgor rhanbarthol statudol a gylchredwyd yn lle'r atodiad i'r adroddiad. Roedd hwn yn egluro proses benderfynu neu gyfrifoldebau ymgynghorol bob partner. Tra bo'r GA1 yn nodi sut y byddai'r pwyllgor yn gweithredu yn y cyfnod interim, byddai ail ran y Cytundeb yn cynnwys rhagor o fanylion am yr ymrwymiadau a byddai'n destun ymgynghoriad yn 2019.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai cyflawniadau o ran Cais y Fargen Twf yn cryfhau'r achos dros well cydweithio ar lefel ranbarthol, yr ystyriwyd ei fod yn ddewis tebygol yn lle diwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Dywedodd mai'r tri maes a nodwyd ar gyfer eu gwella drwy weithio ar lefel ranbarthol yng Ngogledd Cymru oedd yr economi, iechyd a gofal cymdeithasol a diogelwch cymunedol.

Darparodd y Prif Swyddog wybodaeth ar gynnwys y GA1, gan egluro mai penderfyniad y Cyngor oedd cytuno ar drefniadau ar gyfer Trosolwg a Chraffu. Amlinellodd y pedwar mesur diogelu fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac atgoffodd bawb y byddai'r ddogfen gynnig yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Medi.

Wrth gynnig yr argymhellion, roedd y Cynghorydd Butler yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai Aelodau ond amlygodd bwysigrwydd y Fargen a chadw rheolaeth leol dros faterion Llywodraethu penodol.

Cododd y Cynghorydd Peers sawl pwynt o ran y modd yr oedd y ddogfen wedi'i chyflwyno y cytunodd y Prif Swyddog fynd i'r afael â hwy wrth gwblhau'r GA1 ar ôl derbyn sylwadau pob cyngor. Rhoddodd y Prif Weithredwr eglurhad o sawl maes o fewn y GA1 gan gynnwys cyfraniadau gan y chwe chyngor a chytunodd i ailgylchredeg y Strategaeth Twf i'r Aelodau. O ran yr awgrym i gynnwys 'lle'n bosibl' mewn perthynas ag ymrwymo digon o adnoddau i gyflenwi'r Fargen Twf, amlygodd y swyddogion bwysigrwydd pob cyngor yn anrhydeddu ei ran o'r ymrwymiadau fel rhan o'r cytundeb.

Tra bo'r Cynghorydd Heesom yn cydnabod y cyfleoedd sylweddol drwy'r Fargen Twf, nododd unwaith eto ei bryderon ynghylch graddau'r manteision.

Siaradodd y Cynghorydd Richard Jones o blaid yr ymagwedd ranbarthol ond cwestiynodd y manteision ar gyfer y Sir gyfan. Cyfeiriodd at yr amcanion a nodwyd yn y GA1 a dywedodd y dylai'r eitemau sydd o fudd uniongyrchol i Sir y Fflint fod wedi cael eu dwyn i sylw'r Cyngor yn gynharach er mwyn egluro i'r Aelodau beth yr oedd gofyn iddynt ei gytuno. Holodd am gyfanswm costau'r Fargen Twf ynghyd â threfniadau ar gyfer penodi cynrychiolwyr i'r cydbwyllgor. Aeth ymlaen i ofyn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ymgymryd â chraffu lleol gyda phwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol eraill ac y dylid gweddarlledu'r cyfarfodydd hynny.

Siaradodd y Cynghorydd Woolley o blaid y Fargen Twf ond yr oedd ganddo bryderon am ganlyniadau dywededig trefniadau tebyg yn Lloegr. O ran y GA1, mynegodd amheuon ynghylch y geiriad a ddefnyddiwyd yn yr adrannau ar dynnu'r cytundeb yn ei ôl a chanlyniadau ei derfynu.

Amlygodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y cynnydd da a wnaed o ran yr isadeiledd cludiant trawsffiniol ynghyd â gwneud y gorau o gyfleoedd ariannu i wella cysylltiadau ar draws y Sir.

Siaradodd y Cynghorydd Banks hefyd o blaid y cais ond rhannodd bryderon rhai Cynghorwyr ynghylch buddsoddiad teg mewn cludiant ar draws y Sir.

Wrth ymateb i'r pryderon a godwyd, dywedodd y Prif Swyddog bod y model hwn yn wahanol i hwnnw yn Lloegr a bod y cydbwyllgor yn cynnwys y chwe chyngor ym mhle yr oedd trefniadau craffu lleol yn berthnasol. Rhoddodd sicrwydd o ran y pwerau a ganiatawyd i is-bwyllgorau, y mesurau diogelu o ran cael cymeradwyaeth Aelodau ar adegau allweddol, ynghyd â threfniadau archwilio gan yr awdurdod cynhaliol.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr ymagwedd unedig eisoes wedi helpu i ddenu rhywfaint o gyllid a bod angen i'r cytundeb fod yn gyfreithiol, yn gredadwy ac yn ymarferol i gael ei dderbyn gan y ddwy lywodraeth. Siaradodd am y nod o fuddsoddi mewn tyfu sectorau busnes ar draws y rhanbarth i gyflawni buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol, a dywedodd y byddai'r wyth rhaglen allweddol a rannwyd yn y gweithdy i Aelodau yn cael eu blaenoriaethu gan y ddwy lywodraeth ar adeg y cais terfynol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r bwrdd rhanbarthol yn cytuno ar ymagwedd tuag at rannu adroddiadau interim ar ddatblygu'r cais gyda chynghorau unigol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y cynnydd o ran datblygu Cais y Fargen Twf yn cael ei nodi a'i groesawu;

(b) Bod y Cyngor yn cymeradwyo holl elfennau anweithredol cam cyntaf y Cytundeb Llywodraethu fel yr amlinellwyd yn y cyfarfod;

(c) Bod drafft terfynol Cais y Fargen Twf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ei adolygu a'i ganiatáu ym mis Medi/Hydref cyn cyfnod cyrraedd Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth;

(d) Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Llywodraethu), mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i gwblhau telerau'r Cytundeb Llywodraethu yn unol â'r drafft a atodwyd i adroddiad y Cabinet; a

(e) Bod y trefniadau gweithredol a gynhwysir o fewn y Cytundeb Llywodraethu yn cael eu cynnwys yn y Cyfansoddiad ac y gofynnir i'r Cyngor gynnwys y trefniadau anweithredol o fewn y Cyfansoddiad.

## 24. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR I RAI SY'N GADAEL GOFAL

Derbyniwyd adroddiad ar y cynigion i ddarparu gostyngiad o hyd at 100% o dalu Treth y Cyngor i rai sy'n gadael gofal sydd rhwng 18 a 25 mlwydd oed sy'n preswylio yn Sir y Fflint.

Fel yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd y Cynghorydd Christine Jones yn croesawu'r cynigion i helpu pobl ifanc yn y cyfnod o newid i fod yn oedolion ac i fyw'n annibynnol.

Dywedodd y Rheolwr Refeniw mai cost amcangyfrifiedig ariannu'r cynllun fyddai tua £14K y flwyddyn ac y byddai hyd at ddeg unigolyn yn Sir y Fflint yn gymwys i gael gostyngiad, gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal sy'n preswylio yn Sir y Fflint ond a fu dan ofal cyngor arall yn flaenorol. Os cefnogir hyn gan Aelodau, gofynnid i'r Cabinet fabwysiadu'r cynllun newydd i fod yn effeithiol o 1 Ebrill 2018.

Fel Cadeirydd y Fforwm Gwasanaethau Plant, roedd y Cynghorydd Bithell yn croesawu'r cynigion.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Carver, eglurodd y Rheolwr Refeniw y byddai'r polisi ar gyfer y cynllun yn ystyried gwahanol amgylchiadau a threfniadau byw.

Wrth gefnogi'r cynigion, siaradodd y Cynghorydd Tudor Jones ynghylch yr angen am gefnogaeth barhaus i rai sy'n gadael gofal ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Dywedodd y Prif Swyddog (Y Gwasanaethau Cymdeithasol) bod cymorth ar gael i rai sy'n gadael gofal hyd at yr adeg y maent yn 25 oed, yn dibynnu ar

amgylchiadau'r unigolyn. Cyfeiriodd at gynlluniau i gryfhau ymhellach y cymorth i rai sy'n gadael gofal.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cyngor yn darparu adborth i'r Cabinet ar y posibilrwydd o gyflwyno cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor i rai sy'n gadael gofal; a

(b) Bod y Cyngor yn cefnogi datblygiad cynllun Gostyngiad Dewisol Treth y Cyngor ar gyfer rhai sy'n Gadael Gofal, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol y Cabinet, gyda'r nod o ddarparu gostyngiadau o hyd at 100% i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 mlwydd oed.

## 25. CYMERADWYO DATGANIAD CYFRIFON CRONFA BENSIWN CLWYD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr (Llywodraethu) yr adroddiad i alluogi Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd, fel y corff mwy priodol, i gymeradwyo datganiad cyfrifon terfynol Cronfa Bensiwn Clwyd, yn hytrach na'r Cyngor Llawn. Byddai'r ymagwedd hon, a gefnogwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn dal i gynnwys ystyriaeth o'r cyfrifon terfynol gan y Pwyllgor Archwilio.

Ar ran Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd, cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Dave Hughes, ei gefnogaeth ar gyfer yr ymagwedd hon.

**PENDERFYNWYD:**

Bod datganiad cyfrifon terfynol Cronfa Bensiwn Clwyd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio ac yn cael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd.

## 26. RHESTR O GYDNABYDDIAETHAU ARIANNOL AR GYFER 2018/19

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhestr o Gydnabyddiaethau Ariannol ar gyfer 2018/19 i'w chymeradwyo'n ffurfiol, yn amodol ar ddau ddiwygiad o dan adran 14 ac atodlen 1.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Yn amodol ar y ddau ddiwygiad, bod y Rhestr o Gydnabyddiaethau Ariannol ar gyfer 2018/19 oedd wedi'i chwblhau yn cael ei chymeradwyo ar gyfer ei chyhoeddi; a

(b) Awdurdodi'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i ychwanegu enw'r aelod etholedig terfynol i'r rhestr ar ôl ei benodi.

## 27. AELODAU’R WASG A’R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 5.20pm)

..................................................

**Y Cadeirydd**